

**Cofnodion Wedi'i Gadarnhau o  
Cyfarfod Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella Iechyd Cyhoeddus Cymru  
21 Chwefror 2024, 09:30 - 12:20  
a Gynhaliwyd yn 2 Capital Quarter a thros Microsoft Teams**

<b>Yn Bresennol:</b>		
Diane Crone	(DC)	Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol)
Kate Eden	(KE)	Dirprwy Gadeirydd y Bwrdd, a Chyfarwyddwr Anweithredol (am ran o'r cyfarfod)
Sian Griffiths	(SG)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd
Mohammed Mehmet	(MM)	Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl (ar gyfer rhan o'r cyfarfod)
Tamsin Ramasut	(TR)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Cydraddoldeb ac Amrywiaeth)
<b>Hefyd yn Bresennol:</b>		
Claire Birchall	(CB)	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (Dros dro)
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd
John Boulton	(JB)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG/Cyfarwyddwr Gwelliant Cymru (am ran o'r cyfarfod)
Amy Burgess	(AB)	Rheolwr Ymgysylltu a Chydweithio (ar gyfer eitem 3.4)
Angela Cook	(AC)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Nyrsio, Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Neil Desmond	(ND)	Pennaeth Ystadau ac Iechyd a Diogelwch (ar gyfer eitem 3.8)
Danielle Gething	(DH)	Pennaeth Rheoli Risg (yn Arsylwi)
David Heyburn	(DH)	Rheolwr Rhaglenni, Microbioleg (ar gyfer eitem 3.8.2)
Sharon Hillier	(SH)	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Sgrinio (ar gyfer eitem 3.7)
Junaid Iqbal	(JI)	Arweinydd Ymgysylltu â Defnyddwyr Gwasanaethau (Arsylwi, ar gyfer eitem 3.4)
Wayne Jepson	(WJ)	Pennaeth Ansawdd, Ymgysylltu a Chydweithio (ar gyfer eitem 3.4)
Andrew Jones	(AJ)	Dirprwy Gyfarwyddwr Diogelu Iechyd a'r Gwasanaethau Sgrinio (ar gyfer eitem 3.6)

Meng Khaw	(MK)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
Jim McManus	(JM)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Iechyd a Llesiant
Paula Mitchell	(PM)	Rheolwr Ansawdd a Llywodraethu Clinigol (ar gyfer eitem 3.8.2)
Olusola Okhiria	(OO)	Cynrychiolydd Undeb Llafur
Michelle Peters	(MP)	Rheolwr Iechyd a Diogelwch y Rhwydwaith, Microbiolog (ar gyfer eitem 3.8.2)
Stuart Silcox	(SS)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig
Paul Veysey	(PV)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Huw Williams	(HW)	Pennaeth Parodrwydd am Argyfwng ac Ymateb (ar gyfer eitem 3.6)
<b>Ymddiheuriadau</b>		
Sumina Azam	(SA)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol
Jan Williams	(JW)	Cadeirydd Iechyd Cyhoeddus Cymru
<i>Dechreuodd y cyfarfod am 09:30</i>		
<b>QSIC 2024.02.21/1</b>	<b>Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau</b>	
Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawodd bawb a oedd yn bresennol.		
<b>Nododd</b> y Pwyllgor yr ymddiheuriadau uchod.		
<b>Nododd</b> y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i gefnogi cywirdeb y cofnodion, ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu ar ôl i'r cofnodion gael eu cymeradwyo yn y cyfarfod dilynol.		
Nododd y Cadeirydd y newidiadau i drefn yr agenda i sicrhau'r presenoldeb perthnasol.		
<b>QSIC 2024.02.21/2</b>	<b>Datgan Buddiannau</b>	
Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes wedi'u cofnodi ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.		
<b>QSIC 2024.02.21/4</b>	<b>Eitemau i'w Cymeradwyo</b>	
<b>QSIC 2024.02.21/4.1</b>	<b>Cofnodion, Cofnod o Gamau Gweithredu a Materion yn Codi o'r Cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2023</b>	
Ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2023 fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.		
Ystyriodd y Pwyllgor y diweddiariadau i'r cofnod o gamau gweithredu a <b>chymeradwyodd</b> y penderfyniad i gau'r camau a gwblhawyd.		
<u>Materion yn Codi – Diweddariad ar y Fframwaith Llywodraethu Clinigol</u>		
Rhoddodd MK a CB ddiweddariad ar gynnydd y gwaith o weithredu'r Fframwaith Llywodraethu Clinigol ledled y Sefydliad, gan amlygu cyfarfodydd Swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol/Llywodraethiant Clinigol a gynhaliwyd ar ddyfeisiau		

meddygol a datblygiad grŵp gweithredol i gefnogi'r gwaith o sicrhau ansawdd, ac i roi agweddau gweithredol y Fframwaith Llywodraethu Clinigol ar waith.

Diolchodd y Pwyllgor i CB ac MK am y diweddariad a **chytunodd** i ystyried cyflwyniad yn y cyfarfod nesaf i arddangos y cynnydd hyd yn hyn a'r cynlluniau i'r dyfodol.

### Camau Gweithredu: CB/MK

QSIC 2024.02.21/3	Eitemau Er Sicrwydd
QSIC 2024.02.21/3.7	Diweddariad ar y Gwasanaethau Sgrinio Diwygiedig

Cyflwynodd MK yr adroddiad, a gyflwynodd ddiweddariad ar ddatblygiad adroddiad wedi'i ddiwygio ar y Gwasanaethau Sgrinio i'r Pwyllgor, yn dilyn gweithdy'r Pwyllgor a Sesynau Datblygu'r Bwrdd a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2023 ynghylch argymhellion yr archwiliad.

Yna cyflwynodd SH yr adroddiad, gan amlygu fframwaith sy'n canolbwyntio ar wella'r data o fewn y Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad misol. Aliniwyd hyn ag egwyddorion darparu gwasanaethau sgrinio rhagorol, gan ddefnyddio Safonau Ansawdd STEEEP (Diogel, Amserol, Effeithiol, Effeithlon, Teg ac yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn), ac mae'n anelu at ganolbwyntio ar wella'r metrigau perfformiad a nodi'r rheini nad ydynt yn cael eu cyflawni.

Yn ail, roedd y fframwaith yn canolbwyntio ar yr argymhelliad i ddarparu adroddiadau clir i'r Pwyllgor, gyda mwy o wybodaeth feintiol am adferiad y rhaglenni Sgrinio Bronnau a Llygaid Diabetig. Byddai'r adran hon o'r adroddiad yn anelu at nodi'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr ôl-groniad, y camau gweithredu manwl a'r risgiau, yn y drefn honno. Gorffennodd ei diweddariad drwy nodi bod y fframwaith yn waith sydd ar y gweill, sy'n anelu at sicrhau bod naratif clir o wybodaeth yn llifo o Fwrdd y Rhaglen i fyny i'r Pwyllgor a'r Bwrdd.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol:

- Y cynnydd cadarnhaol a wnaed i ddatblygu arddull adrodd clir a chyfeiriad gweledol clir y cyfeiriad teithio.
- A chroesawodd y cyfle i ystyried yr Adroddiad Blynyddol ar Annhegwch yr Is-adran Sgrinio pan fydd wedi'i gyhoeddi.

### Camau Gweithredu: MK/SH

- Awgrymodd JB y dylid meincnodi yn erbyn y chwe galluogwr/safon ansawdd sy'n weddill yn ychwanegol at STEEEP, i gynnwys, er enghraifft, mesur profiad y claf. Awgrymodd JB hefyd y dylid meddwl ymhellach am y mesurau sy'n mynd i'r Bwrdd fel rhan o'r Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad a chynigodd gefnogaeth ei Gyfarwyddiaethau yn y meysydd hyn.
- Gan adlewyrchu ar y parthau effeithiol ac effeithlon, nododd AC y dylid ystyried yn y dyfodol, o bosibl, nifer y menywod nad ydynt yn dychwelyd ar ôl i sampl ceg y groth gael ei wrthod, a pha mor ddefnyddiol fyddai gweld Archwiliad Sgrinio Serfigol Cymru o Ganserau Serfigol yn cael ei gwblhau o safbwynt ansawdd. Cadarnhaodd SH fod meysydd pwysig a fyddai'n cael eu datblygu fel rhan o'u cynlluniau gwaith.



- Cyfeiriodd KE at safon uchel y sgwrs yn y Bwrdd ym mis Ionawr oherwydd y data o ansawdd gwell a gyflwynwyd, ac awgrymodd y dylid adrodd am eithriadau ar lefel uchel yn y Bwrdd, gyda'u hyder y byddai'r sicrwydd a'r manylion yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella.
- Ceisiodd SG ragor o wybodaeth am y llwybr canser a phrofiad cyflawn yr unigolyn o ran canlyniadau ledled Cymru ac unrhyw rwystrau yn y system. Gan gyfeirio at y berthynas ar draws pwyllgorau gyda'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella, nododd SG y byddai'r Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd yn edrych ar y data a chroesawodd unrhyw sylwadau ar y maes hwn.
- Gofynnodd MM am roi mwy o ystyriaeth i arddangos a yw'r camau y cytunwyd arnynt yn cael yr effaith a ddymunir a sut y mae cynnydd yn cael ei wneud mewn amser real.

Diolchodd MK i'r Pwyllgor am y drafodaeth gyfoethog a chytunodd y byddai rhagor o ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddarparu mwy o naratif am achos ac effaith y camau, wrth symleiddio'r wybodaeth. Gorffennodd MK y diweddariad drwy nodi y byddai SH yn gweithio gyda'r cyfarwyddiaethau i flaenoriaethu'r metrigau amtwg a'r meysydd sy'n peri pryder y mae angen i'r Bwrdd eu hystyried, i roi sicrwydd i'r Bwrdd eu bod ar y llwybr cywir i fynd i'r afael â'r meysydd pwysicaf.

Diolchodd y Pwyllgor i SH am yr adroddiad cynhwysfawr a **chadarnhaodd** eu bod yn fodlon â'r dull a amlinellwyd yn yr adroddiad.

QSIC 2024.02.21/3.8

Iechyd a Diogelwch

QSIC 2024.02.21/3.8.1

Adroddiad Iechyd a Diogelwch Chwarter 3 2023-24

*Gadawodd JB y cyfarfod*

Cyflwynodd ND yr adroddiad chwarter 3 ar Iechyd a Diogelwch, gan gadarnhau na adroddwyd unrhyw ddigwyddiadau o dan y 'Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus' (RIDDOR) yn ystod y chwarter. Aeth ymlaen i grynhoi'r camau adferol a gymerwyd i fynd i'r afael â'r ddau faes y tu allan i'r gydymffurfiaeth statudol ar adeg ysgrifennu'r adroddiad (profi diogelwch trydanol a diogelwch nwy) a gorffennodd ei ddiweddariad drwy amlygu'r ymgysylltiad â'r Gyfarwyddiaeth Datblygu Sefydliadol a Phobl ynghylch yr asesiadau Cyfarpar Sgrin Arddangos.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol:

- Y pryder ynghylch y lefelau is o gydymffurfiaeth â'r hyfforddiant mandadol, mewn rhai meysydd, gan nodi bod hyn wedi'i drafod yn y Grŵp Iechyd a Diogelwch diwethaf. Rhoddwyd y dasg o godi ymwybyddiaeth ymysg eu Cyfarwyddiaethau perthnasol i'r cynrychiolwyr. Cadarnhaodd LB y byddai'n edrych ar gefnogi'r Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Anweithredol i godi'r mater o gydymffurfiaeth â'r Gyfarwyddiaeth Gorfforaethol.
- Amlygodd CB y ffaith y byddai'r Pennaeth Risg newydd yn cysylltu â'r tîm cyfleusterau i drafod addasrwydd/themateg y cofrestrau risg ar draws y Cyfarwyddiaethau, gan gynnwys y Gofrestr Risg Iechyd a Diogelwch.



Diolchodd y Pwyllgor i ND am y diweddariad a chafodd **sicrwydd** bod y mesurau priodol ar waith i fonitro cydymffurfiaeth a mynd i'r afael â'r meysydd a nodwyd i'w gwella.

QSIC 2024.02.21/3.8.2

**Astudiaeth Achos Iechyd a Diogelwch (gan gynnwys yr Astudiaeth Achos Diogelwch Staff)**

Cyflwynodd ND y cyflwyniad Rheoli Digwyddiadau, a roddodd drosolwg o'r prosesau rheoli risg ar gyfer digwyddiadau sy'n gysylltiedig ag Iechyd a Diogelwch a adroddir drwy Datix. Cyfeiriodd at y mathau o ddigwyddiadau a adroddwyd a'r gwaith dilynol a'r ymchwiliadau a gynhaliwyd gan y tîm Iechyd a Diogelwch, a'r adegau ble y mae hyn wedi arwain at ddarparu hyfforddiant penodol o fewn cyfarwyddiaethau i ateb eu hanghenion. Aeth ymlaen i nodi'r materion parhaus o ran aseiniadau/naratif risg anghywir a oedd yn cael eu hadolygu. Gorffennodd ND ei gyflwyniad drwy nodi'r bwriad i wella dosbarthiad y gwersi a ddysgwyd ledled y Sefydliad, ac i helpu i gryfhau'r cyfarwyddiaethau hynny sy'n hunanarchwilio i reoli a gwella'r gwaith darparu mewn modd gweithredol.

Yna cyflwynodd MP astudiaeth achos ar wella diogelwch staff, gan amlygu cyflwyniad 4 adroddiad RIDDOR sy'n ymwneud â chyfrngau biolegol o ddau labordy yn ystod 2022-23 a'r camau gweithredu rhagweithiol i geisio cymorth, cynnal ymchwiliadau a lliniaru'r sefyllfa gan ddefnyddio'r themâu a nodwyd yn ystod yr ymchwiliad. Amlygodd MP y ffaith eu bod wedi cynnal arolwg o'r camau i fesur eu heffeithiolrwydd a nododd y gwelliant cyson yn y ffaith bod dim digwyddiadau sy'n gysylltiedig â RIDDOR wedi'u hadrodd.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol:

- Cynigodd AC gefnogaeth y tîm Iechyd a diogelwch ynghylch y rhaeadr dysgu fel rhan o'u cynlluniau i gryfhau'r agwedd hon o dan y Ddyletswydd Ansawdd.
- Yr arolwg parhaus cadarnhaol o ddigwyddiadau, a'r gwelliant da yn ystod y flwyddyn.
- Cymeradwyodd AC y gwaith ar rannu'r data brechu, a'r defnydd o ddata gwella ansawdd. Cydnabu'r Pwyllgor yr angen i adolygu'r gwaith o reoli'r cofnodion ar frechiadau staff ledled y Sefydliad, oherwydd y safleoedd Iechyd galwedigaethol amrywiol drwy lens ansawdd, a'r gwaith sydd ei angen mewn ymateb i Gylchlythyr Iechyd Cymru diweddar ynghylch brechiad y frech goch i staff.
- Pwysigrwydd 'Fe ddywedoch chi fe wnaethon ni' i gau'r cylch ar reoli digwyddiadau ar Datix, er mwyn meithrin diwylliant adrodd agored.

Diolchodd y Pwyllgor i ND, MP a DH am eu cyflwyniadau a'r astudiaethau achos ar y gwaith o reoli Digwyddiadau Iechyd a Diogelwch a Diogelwch Staff.

*Gadawodd MM y cyfarfod*

QSIC 2024.02.21/3.2

**Adroddiad ar Berfformiad Llywodraethu Ansawdd**

Cyflwynodd CB yr adroddiad, gan wneud sylw am yr adroddiad sydd newydd ei gydgrynhoi, sy'n cynnwys dau barth sicrwydd ansawdd a gwella ansawdd i gwmpasu agweddau ehangach Llywodraethu Ansawdd.

Yna cyflwynodd AC bob rhan o'r adroddiad:

#### Adroddiad Gweithio i Wella (Chwarter 3, 2023-24)

Crynhodd AC yr adran Gweithio i Wella, a oedd yn cynnwys y digwyddiadau, cwynion a phryderon a adroddwyd ac y gweithredwyd arnynt yn ystod chwarter 3. Nododd AC un achos gwneud iawn newydd o fewn Sgrinio Serfigol Cymru, ac un Digwyddiad Adroddadwy Cenedlaethol o fewn Sgrinio Coluddion Cymru, ac roedd y naill achos a'r llall yn cael eu hymchwilio. Mae'r un achos Dyletswydd Gonestrwydd a adroddwyd yn ystod chwarter 2 yn parhau. Aeth AC ymlaen i amlygu'r gwelliannau o ran sicrhau adroddiadau categori cyson o fewn Sgrinio Serfigol Cymru, a byddai'r hyn a ddysgwyd yn cael ei rannu ledled y Sefydliad. Cadarnhaodd AC y bwriad i ddatblygu'r gwaith gwella o fewn rheoli cwynion a chryfhau'r hyn a ddysgir yn sgil canmoliaeth.

#### Rheoli Rhybuddion a Hysbysiadau Diogelwch (Chwarter 3, 2023-24)

Rhoddodd AC ddiweddariad ar yr adran rheoli rhybuddion, gan nodi tri rhybudd perthnasol ar gyfer y Sefydliad yn ystod chwarter 3 a oedd er gwybodaeth yn unig. Yna amlygodd AC y gwaith sydd ar y gweill gyda Gweithrediaeth y GIG a Swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol i symleiddio'r pwynt mynediad ar gyfer hysbysiadau am rybuddion.

#### Gwaith y Grŵp Diogelu

Rhoddodd AC ddiweddariad am waith y Grŵp Diogelu, gan amlygu ei ffocws ar wella sicrwydd ynghylch y lefel cywir o wiriadau'r Gwasanaethau Datgelu a Gwahardd a aseiniwyd i rolau swyddi, yn enwedig staff sy'n ymdrin yn uniongyrchol â chleifion. Nododd AC y byddai'r gydymffurfiaeth Ddiogelu ar gyfer y Bwrdd yn cael ei hystyried, gyda sesiwn hyffordd i'r Bwrdd wedi'i chynllunio ar gyfer 2024/25. Gorffennodd AC y diweddariad drwy gadarnhau y byddai'r tri cham gweithredu yn y matrices aeddfedrwydd diogelu sy'n parhau yn cael eu symud i gynllun y flwyddyn nesaf; roedd y cynlluniau i fynd i'r afael â'r camau gweithredu hyn eisoes ar y gweill.

#### Gwaith y Grŵp Atal a Rheoli Heintiau

Rhoddodd AC ddiweddariad ar waith y grŵp Atal a Rheoli Heintiau, gan nodi dechrau'r rhaglen gweithiwr cyswllt Atal a Rheoli Heintiau ym mis Ionawr 2024, y gwelliannau sydd eu hangen mewn hyfforddiant mandadol ar atal a rheoli heintiau, yr hyn a ddysgwyd o'r 12 digwyddiad sy'n ymwneud ag atal a rheoli heintiau o fewn y labordy yn ystod chwarter 3 a'r gwaith sydd ar y gweill i wella cydymffurfiaeth â'r safonau dadhalogi o fewn Bron Brawf Cymru. Nododd AC hefyd bod disgwyl i'r diweddariad ar lwyddiant, risgiau ac effaith cyflawni'r ymgyrch fflwg gael ei ystyried gan y Tîm Gweithredol Busnes.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol:

- Gofynnwyd am adborth am arddull newydd yr adroddiad ar y cyd. Gofynnodd y Pwyllgor i CB ystyried fformat cyflwyno'r adroddiad wedi'i goladu i sicrhau bod sicrwydd llawn ar gyfer pob agwedd, ac i amlygu'r pwyntiau da, y meysydd sy'n peri pryder, ac unrhyw feysydd/pwyntiau a fyddai'n cael budd o gefnogaeth y Pwyllgorau ar ddechrau'r adroddiad.

**Camau Gweithredu: CB**



- Y pryder ynghylch y gwelliannau sy'n oedi capasiti Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar gyfer Sgrinio Serfigol Cymru, ac ystyriodd a ddylid uwchgyfeirio hyn i'r Bwrdd.

**Camau Gweithredu: LB**

- Tynnodd CB sylw at yr angen i reoli perfformiad yn effeithiol gyda ffocws ar ansawdd er mwyn cau'r cylch o ran cau digwyddiadau a chwynion.
- Cytunodd i drafod ymhellach y gefnogaeth sydd ei hangen yn y maes dadhalogi y tu allan i'r cyfarfod. Nododd OO y byddai'n croesawu diweddariad am y maes dadhalogi a diogelwch y staff ar ôl y drafodaeth hon.

**Camau Gweithredu: AC**

Fe wnaeth y Pwyllgor

- **Nodi'r** safonau perfformiad sy'n cael eu cyflawni a'r meysydd i'w gwella,
- Cael **sicrwydd** bod y dulliau llywodraethu priodol ar waith i reoli gwasanaethau diogel, amserol, effeithiol, effeithlon, teg ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, drwy Gweithio i Wella, Rheoli Rhybuddion, a gwaith y grŵp Diogelu ac Atal a Rheoli Heintiau.

*Gadawodd KE y cyfarfod  
Ymunodd JB â'r cyfarfod*

QSIC 2024.02.21/3.1

**Diweddariad ar Weithredu'r Ddeddf Dyletswydd Ansawdd a'r Ddeddf Dyletswydd Gonestrwydd**

Cyflwynodd JB y diweddariad ar y Ddyletswydd Ansawdd, gan grynhoi'r cynnydd o ran datblygiad yr Hyb Llywodraethiant, Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Hyb Gwella ac Arloesedd. Amlygodd JB y gwaith o drosglwyddo gweithrediad y Ddeddf Dyletswydd Ansawdd, a'r ffrydiau gwaith Ansawdd fel Strategaeth Sefydliadol, i'r Gyfarwyddiaeth Ansawdd, Nyrso a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd.

Yna rhoddodd AC ddiweddariad ar y Ddeddf Dyletswydd Gonestrwydd, gan nodi'r un achos Dyletswydd Gonestrwydd sydd ar agor o Chwarter 2. Aeth AC ymlaen i nodi'r cynnig misol parhaus o hyfforddiant ledled y Sefydliad ac amlygodd y ffaith bod y problemau wrth gofnodi cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd wedi'u hwchgyfeirio i'r gwasanaethau a rennir er mwyn i gamau adferol gael eu cymryd.

Trafododd y Pwyllgor gydweddiad yr Hyb Llywodraethiant â'r Grŵp Goruchwylio Ansawdd sydd newydd ei sefydlu. Cadarnhaodd PV mai diben yr Hyb Llywodraethiant fyddai rhoi arweiniad a chymorth ar y llwybr llywodraethu gorau ledled y sefydliad. Ni fyddai ganddo unrhyw bwerau i wneud penderfyniadau a byddai'n eistedd ochr yn ochr â'r grwpiau eraill.

Diolchodd y Pwyllgor i AB ac AC am y diweddariad a chafodd **sicrwydd** ynghylch y cynnydd a wnaed i gyflawni gofynion y Dyletswyddau Gonestrwydd ac Ansawdd Yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

QSIC 2024.02.21/3.3

**Y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a Strategol**

Cyflwynodd CB yr adroddiad, gan amlygu'r drafodaeth drylwyr a gynhaliwyd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr 2024 ar yr ymagwedd tuag at risg, a nododd bod y Bwrdd wedi cymeradwyo'r newid o ran y Pwyllgor y Bwrdd sy'n rhoi sicrwydd ar Risg



Strategol 1 a 2, o'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella i'r Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd. Gorffennodd CB y diweddariad drwy nodi'r bwriad i gyflwyno lefel well o eglurder am y manylion ynghylch y risgiau strategol ac y byddai iteriad nesaf y Cofrestrau Risg yn cyflwyno newid sylweddol i'r disgrifyddion risg.

### Risgiau Strategol

- Risg Strategol 3

Rhoddodd SS ddiweddariad ar ran SA, gan nodi'r camau gweithredu ar raddfa fawr sydd eu hangen, sy'n ddibynnol iawn ar ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymunedau. Er mwyn cydnabod maint a natur y risg, mae'r meysydd y gallai'r Sefydliad gael effaith a dylanwad arnynt yn cael eu hadolygu.

Nododd CB y byddai'r Pennaeth Risg newydd yn edrych ar ddatblygu fframwaith a seilwaith i gefnogi'r perchnogion risg i sicrhau'r cyfraniadau gorau posibl a mwyaf ystyrlon gan y cyfranwyr risg.

- Risg Strategol 5

Rhoddodd MK ddiweddariad ar risg 5, gan amlygu'r Cynllun ar gyfer Brigiadau o Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy yng Nghymru wedi'i ddiwygio, ynghyd â'r hyn a ddysgwyd o'r Ymchwiliad COVID ar Gynllunio mewn Argyfwng a diwedd yr ôl-drafodaeth ar barodrwydd sefydliadol Iechyd Cyhoeddus Cymru a gynlluniwyd i helpu i leihau effaith y risg strategol dros y misoedd i ddod.

Cyfeiriodd MK hefyd at y trafodaethau sydd ar y gweill i goethi a chyfuno risgiau 5 a 6 o bosibl yn y dyfodol, i feithrin y naratif o gwmpas darparu gwaith paratoi rhagorol mewn argyfwng ar gyfer ein gwasanaethau.

- Risg Strategol 6

Darparodd MK ddiweddariad ar risg 6, gan grynhai'r camau gweithredu ynghylch rhaglenni penodol o fewn rhaglenni sgrinio, a oedd yn cynnwys ffocws ar gapasiti ymchwydd a gwelliannau i weithgaredd caffael.

### Y Gofrestr Risg Gorfforaethol

Nododd CB y gwelliannau i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a gwnaeth sylw am y naratif a allai newid erbyn y cyfarfod nesaf. Nododd y Pwyllgor bod un o'r chwe risg wedi'u hepgor o'r papur eglurhaol; fodd bynnag, roedd manylion llawn y chwe risg ar gael yn atodiad 2 i'r adroddiad.

Gwnaeth y Pwyllgor:

- Ystyried a chael **sicrwydd** ar y Risgiau Strategol a Chorfforaethol sy'n berthnasol i gylch gorchwyl y Pwyllgor,
- **Nododd** fod y Bwrdd wedi cymeradwyo'r newid i'r Pwyllgor Bwrdd sy'n rhoi sicrwydd ar gyfer Risgiau Strategol 1 a 2 (o'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella i'r Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd) yn ei gyfarfod ar 25 Ionawr 2024,





- **Nododd** y newidiadau i ddull ac amllder y gwaith o adrodd ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol i'r Pwyllgor.

*Gadawodd SG y cyfarfod*

QSIC 2024.02.21/3.4

Ymgysylltiad â'n Gwasanaethau (ein dull o ymgysylltu)

Cyflwynodd CB yr adroddiad diwygiedig, yn dilyn cymeradwyaeth gyntaf y Bwrdd o'r cynllun gweithredu 'Ein Dull o Ymgysylltu' yn 2021. Gan adlewyrchu ar yr ymgysylltiad cryf ar draws y Sefydliad, cyfeiriodd CB at yr angen i gryfhau'r hyn a ddysgir o'r nifer o agweddau ar ymgysylltu a chyfeiriodd at y ffaith bod canfyddiad allweddol wedi nodi'r angen am gronfa/cysylltiad canolog ar ymgysylltiad, cwestiynau a dull y Sefydliad mewn perthynas â'r rhanddeiliad.

Aeth AB ymlaen i grynhai canfyddiadau allweddol yr adroddiad a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y cerrig milltir. Yna cyfeiriodd AB at ffocws arfaethedig y ddwy raglen yn y dyfodol, yn gyntaf drwy arolwg o'r rhaglen Llysgenhadon Ifanc, ac yn ail, drwy edrych ar y defnydd o Civica ledled y Sefydliad, gan gynnwys datblygiad system lywodraethu gadarn i sicrhau cysondeb, safoni a'r defnydd o amrywiaeth a chwestiynau cynhwysiant gorfodol. Gorffennodd AB y diweddariad drwy amlygu'r angen i ymwreiddio ymgysylltiad; roedd disgwyl i hyn gael ei ystyried mewn sesiwn i ddod o'r Tîm Gweithredol Busnes Strategol, drwy lens ansawdd.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol:

- Croesawodd MK y dull i gydgysylltu a gwella'r oruchwyliaeth a'r cysondeb ym maes ymgysylltu, gan nodi bod dysgu a gwella yn allweddol. Cyfeiriodd at yr angen i ystyried y gwaith o gasglu data a llif data, a sut y mae ymgysylltiad yn alinio â'r blaenoriaethau strategol/helpu i wella sut y mae gwasanaethau'n cael eu cyflenwi. Croesawodd CB ac AB y dull hwn ac roeddent yn awyddus i'r rhwydweithiau gydweithio i ddatblygu ffyrdd i rannu a dysgu.
- Cyfeiriodd CB at ei thrafodaeth â Kate Young, y Cyfarwyddwr Anweithredol a Phencampwr Llysgenhadon Ifanc, am gryfhau'r trefniadau llywodraethu a'r gefnogaeth wrth weithio gyda phobl ifanc. Adeisiodd DC hyn a nododd bwysigrwydd cefnogaeth barhaus i'r Llysgenhadon Ifanc a'u llesiant. Cytunodd CB â hyn a chadarnhaodd y byddai'r Sefydliad yn edrych ar gadw ei ymrwymiad achredu i'r Llysgenhadon Ifanc.
- Ceisiodd OO sicrwydd ynghylch sicrhau bod data penodol a chadarn yn cael eu casglu. Cadarnhaodd JI ei fod yn gweithio gyda'r Gyfarwyddiaeth Diogelu Iechyd a Gwasanaethau Sgrinio, a'r Gyfarwyddiaeth Polisi ac Iechyd Rhyngwladol ynghylch cyfres ddata graidd gyson, banciau o gwestiynau a chasglu data.

Diolchodd y Pwyllgor i AB am y diweddariad a:

- Chafodd **sicrwydd** bod cynnydd yn cael ei wneud o ran cyflawni 'Ein Dull o Ymgysylltu' dros y tair blynedd diwethaf.
- **Nododd** bod y Tîm Gweithredol Busnes wedi cymeradwyo'r argymhellion a ganlyn a nodwyd yn adran 4.2 ar brofiad defnyddwyr y gwasanaethau a dosbarthiad Civica, ac yn fwyaf perthnasol y byddai'r Gyfarwyddiaeth Ansawdd,



<p>Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn cydweithio â'r Cyfarwyddiaethau eraill a'r rhanddeiliaid i ddatblygu system lywodraethiant a mandad ar gyfer defnyddio Civica ar draws y sefydliad.</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• <b>Cytunodd</b> i ystyried diweddariad ar ganol y flwyddyn, gan nodi y byddai diweddariad ar y Llysgenhadon Ifanc hefyd yn cael ei ddarparu fel rhan o bapur ehangach ymlaen llaw.</li></ul>	
<b>QSIC 2024.02.21/3.5</b>	<b>Cynllun Gweithredu ar Dwbercwlosis – Diweddariad ar ei Weithredu</b>
<p>Cyflwynodd MK yr adroddiad, a oedd yn adeiladu ar y diweddariad a ddarparwyd yn y cyfarfod ym mis Hydref 2023 ac a oedd yn ceisio darparu diweddariad ar gynnydd camau gweithredu y cytunwyd arnynt ar ôl arolwg annibynnol i'r ymateb i'r achosion o Dwbercwlosis (TB) yr oedd eu canolbwynt yn Llwynhendy, Sir Gaerfyrddin.</p> <p>Soniodd MK wrth y Pwyllgor bod cynnydd da wedi'i wneud ar draws yr holl gamau gweithredu yn y cynllun gweithredu Twbercwlosis i fynd i'r afael ag argymhellion yr arolwg annibynnol, gan gynnwys y Gweithdrefnau Gweithredu Safonol diwygiedig ac, ar lefel genedlaethol, datblygiad cynllun gweithredu i Waredu TB dan arweiniad Llywodraeth Cymru a'r arolwg o'r Cynllun Rheoli Brigiad o Achosion yng Nghymru.</p> <p>Diolchodd y Pwyllgor i MK am y diweddariad ar y cynllun gweithredu TB a chafodd <b>sicrwydd</b> ynghylch y cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r camau gweithredu o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Nododd MK y bwriad i ddarparu diweddariad mewn chwe mis gyda chynllun gweithredu wedi'i gwblhau i'r Pwyllgor gael sicrwydd yn ei gylch, ac i wneud cais y dylid dod â'r adroddiadau i'r Pwyllgor i ben.</p>	
<b>QSIC 2024.02.21/3.6</b>	<b>Adroddiad Cynllunio ar gyfer Argyfwng Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023: Parodrwydd am Argyfwng, Gwydnwch ac Ymateb (EPRR)</b>
<p>Cyflwynodd MK yr adroddiad blynyddol, gan wneud sylw am wydnwch asesiad Parodrwydd am Argyfwng, Gwydnwch ac Ymateb dros y 12 mis diwethaf. Amlygodd lwyddiant mewn meysydd allweddol fel: cymeradwyo Cynllun Ymateb i Argyfwng diwygiedig y Sefydliad, diwygio'r Cynllun Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy i Gymru Gyfan, a'r ymarferion cynllunio am argyfwng diweddar y cafwyd ymateb da iddynt.</p> <p>Aeth AJ ymlaen i gyflwyno adroddiad, yn amlygu sut y mae'r Sefydliad wedi cryfhau a gwella ei swyddogaeth Parodrwydd am Argyfwng, Gwydnwch ac ymateb a'r parhad busnes.</p> <p>Ychwanegodd HW fanylion ychwanegol ynghylch cynlluniau parodrwydd parhaus y Sefydliad a nododd bod y Sefydliad wedi cael sicrwydd sylweddol am ei ddogfennau corfforaethol yn ystod archwiliad diweddar. Gorffennodd ei ddiweddariad drwy nodi y byddai'r tîm yn edrych ar yrru gwelliant yn barhaus drwy ddatblygiadau allweddol fel sefydlu Gwasanaeth Parodrwydd mewn Argyfwng 24/7, diweddarau'r canllawiau ar bandemigau a'r trefniadau capasiti ymchwydd mewnol, ac ymarfer rhithwir ar y 19<sup>eg</sup> o Fawrth a oedd yn canolbwyntio ar y Cynllun Brigiad mewn Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy.</p>	

Nododd CB fod cynllunio ar gyfer argyfwng wedi ymwreiddio'n llwyddiannus ledled y Sefydliad a diolchodd i'r Tîm Ymateb i Argyfwng am ei groeso a'i gyflwyniad.

Nododd y Pwyllgor mai hwn fyddai cyfarfod olaf Andrew Jones o'r Pwyllgor a diolchodd iddo am ei gefnogaeth a'i gyfraniad i'r Pwyllgor, y Sefydliad, ac ar lefel genedlaethol y DU.

Gwnaeth y Pwyllgor

- Gael **sicrwydd** mewn perthynas â chydymffurfiaeth y sefydliad â gofynion y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl [2004] a Chanllawiau Craidd Cynllunio at Argyfyngau GIG Cymru [2015].

QSIC 2024.02.21/5	Eitemau i'w Nodi
-------------------	------------------

QSIC 2024.02.21/5.1	Cynllun Gwaith y Pwyllgor 2023/24
---------------------	-----------------------------------

Nododd y Pwyllgor y diweddariadau i gynllun gwaith y Pwyllgor ar gyfer 2023-24.

Cynghorodd LB y Pwyllgor ynghylch datblygiad a chynnydd llwybr cynllun gwaith drafft y Pwyllgor ar gyfer 2024/25, gan nodi y byddai cymeradwyaeth o'r cynllun yn cael ei geisio yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Mai.

Gwnaeth MK gais i eitemau'r agenda ar gyfer cynllunio ar gyfer y gaeaf gael eu categoraiddio o dan yr adran Cynllunio ar gyfer Argyfyngau yn y cynllun gwaith.

**Camau Gweithredu: LB**

QSIC 2024.02.21/6	Materion Gweinyddol i Gloi
-------------------	----------------------------

QSIC 2024.02.21/6.1	Diwedd y Cyfarfod Cyhoeddus
---------------------	-----------------------------

Gofynnwyd i'r Aelodau anfon e-bost at LB gydag unrhyw adborth ar gyfarfod y Pwyllgor.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 20 Mai 2024.

Daeth y Cadeirydd a'r cyfarfod i ben.

*Daeth y sesiwn agored i ben am 12:20*